## Rhestr o Ddogfennau Adnabod Dilys

Noder bod yn rhaid i'r holl ddogfennau fod yn eich enw cyfredol. Rhaid i o leiaf un ddogfen ddangos eich cyfeiriad cyfredol a rhaid i un arall ddangos eich dyddiad geni.

| **Grŵp 1 – Dogfennau Adnabod Sylfaenol** | |
|---|---|
| Pasbort | Unrhyw basbort cyfredol a dilys. Gall pasbort y DU ddod i ben hyd at uchafswm amser o chwe mis. |
| e-Visa | Mynediad drwy'r gwasanaeth 'Gweld a Phrofi'. Dylai'r cod rhannu y mae'r ceisydd yn gofyn amdano fod yn god rhannu 'cyffredinol'. Os nad oes gennych gyfrif UKVI i gael mynediad at eich eVisa gallwch greu un ar-lein. (Get access to your online immigration status (eVisa) - GOV.UK) |
| Trwydded breswylio fiometrig (BRP) | Y DU. Gellir defnyddio BRP sy'n dangos Caniatâd Amhenodol i Aros, Caniatâd Amhenodol i Ddod i Mewn neu Ddim Terfyn Amser hyd at 18 mis ar ôl i ddyddiad y BRP ddod i ben. Dylid annog deiliaid BRP i greu cyfrif a chael mynediad i'w eVisa. |
| Cerdyn Cofrestru Cais (ARC) | Cyhoeddir gan y Swyddfa Gartref. Rhaid ei wirio yn erbyn Home Office Employer Checking Service. |
| Cerdyn llun trwydded yrru gyfredol - (llawn neu dros dro) | Trwydded yrru cerdyn-llun gyfredol a dilys a gyhoeddwyd gan y DU, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel. O 8 Mehefin 2015, ni fydd y papur cyfatebol i'r drwydded yrru cerdyn llun yn ddilys ac ni fydd y DVLA yn ei gyhoeddi mwyach. |
| Tystysgrif Geni Wreiddiol | Y DU, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel - gan gynnwys y rhai a gyhoeddwyd gan awdurdodau'r DU dramor, er enghraifft llysgenadaethau, Uchel Gomisiynau a Lluoedd Ei Fawrhydi. Rhaid i'r dystysgrif fod yn dystysgrif geni wreiddiol. |
| Tystysgrif mabwysiadu | Y DU ac Ynysoedd y Sianel |

| Grŵp 2a: Dogfennau'r llywodraeth y gellir ymddiried ynddynt | |
|---|---|
| Cerdyn llun trwydded yrru gyfredol - (llawn neu dros dro) | Cyfredol a dilys. Pob gwlad y tu allan i'r DU (ac eithrio Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel). |
| Trwydded yrru gyfredol (llawn neu dros dro) - fersiwn papur (os y'i cyhoeddwyd cyn mis Mawrth 2000) | Cyfredol a dilys. Y DU, Ynys Manaw, ac Ynysoedd y Sianel. Er mwyn i drwydded bapur fod yn ddilys, rhaid ei chyhoeddi cyn mis Mawrth 2000 a rhaid i'r holl wybodaeth, gan gynnwys enw a chyfeiriad, fod yn gyfredol. |
| Tystysgrif geni - copi ardystiedig | Y DU, Ynys Manaw, ac Ynysoedd y Sianel. |
| Tystysgrif priodas/partneriaeth sifil | Y DU ac Ynysoedd y Sianel. |
| Dogfen fewnfudo, fisa, neu drwydded gwaith | Cyhoeddwyd gan wlad y tu allan i'r DU. Yn ddilys yn unig ar gyfer rolau lle mae'r ceisydd yn byw ac yn gweithio y tu allan i'r DU. Rhaid i'r fisa/drwydded ymwneud â'r wlad nad yw'n rhan o'r DU lle mae'r rôl wedi'i lleoli. |
| Cerdyn Adnabod Lluoedd Ei Fawrhydi | Y DU. |
| Trwydded arfau tanio | Y DU, Ynys Manaw, ac Ynysoedd y Sianel. |

| Grŵp 2b: Dogfennau hanes ariannol a chymdeithasol | | |
|---|---|---|
| Llythyr nawdd gan ddarparwr cyflogaeth y DU yn y dyfodol | Yn ddilys yn unig i geiswyr sy'n preswylio y tu allan i'r DU ar adeg y cais | **Rhaid bod yn ddilys o hyd** |
| Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) neu Gerdyn Yswiriant Iechyd Byd-eang (GHIC) | Y DU | **Rhaid bod yn ddilys o hyd** |
| Cerdyn Adnabod Cenedlaethol yr Ardal Economaidd Ewropeaidd | | **Rhaid bod yn ddilys o hyd** |
| Cerdyn Pasbort Gwyddelig | Ni ellir ei ddefnyddio gyda phasbort Gwyddelig | **Rhaid bod yn ddilys o hyd** |

| | | |
|---|---|---|
| Cardiau sydd â logo achredu PASS arnynt | Y DU, Ynys Manaw, ac Ynysoedd y Sianel. Mae cardiau PASS digidol yn dderbyniol pan fyddant wedi'u cyhoeddi gan ddarparwr PASS digidol cymeradwy a bod y cod QR wedi'i ddefnyddio i gadarnhau'r manylion. | **Rhaid bod yn ddilys o hyd** |
| Datganiad morgais | Y DU | **Cyhoeddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf** |
| Datganiad ariannol, er enghraifft pensiwn neu waddol | Y DU | **Cyhoeddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf** |
| Datganiad P45 neu P60 | Ynysoedd y DU a'r Sianel. Ni all fod yn ddogfen ar-lein | **Cyhoeddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf** |
| Datganiad Treth y Cyngor | Y DU ac Ynysoedd y Sianel. | **Cyhoeddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf** |
| Dogfen llywodraeth ganolog neu leol, asiantaeth y llywodraeth, neu gyngor lleol sy'n rhoi hawl, er enghraifft gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Gwasanaeth Cyflogaeth, yr Awdurdod Lleol | Y DU ac Ynysoedd y Sianel – llythyr yn cadarnhau hawl i fudd-daliadau. Er enghraifft: Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP), prydau ysgol am ddim, credyd cynhwysol, cymorth i geiswyr lloches ac ati | **Cyhoeddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf** |
| Llythyrau hunan-asesiad CThEF neu lythyr bil treth | Y DU | **Cyhoeddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf** |
| Datganiad banc neu gymdeithas adeiladu | Y DU ac Ynysoedd y Sianel. Mae datganiad banc argraffedig sydd wedi'i gymeradwyo gyda stamp ac wedi'i lofnodi gan y banc yn dderbyniol os na allwch gael | **Cyhoeddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf** |

| | | |
|---|---|---|
| | copi caled o'r datganiadau banc a bostiwyd atoch. | |
| Datganiad banc neu gymdeithas adeiladu | Gwledydd y tu allan i'r DU | **Wedi'i gyhoeddi yn ystod y 3 mis diwethaf - rhaid i'r gangen fod yn y wlad lle mae'r ceisydd yn byw ac yn gweithio** |
| Llythyr cadarnhau agor cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu | Y DU | **Cyhoeddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf** |
| Datganiad cerdyn credyd | Y DU | **Cyhoeddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf** |
| Bil cyfleustodau | Y DU - nid bil ffôn symudol. Ni ellir argraffu o gyfrif ar-lein | **Cyhoeddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf** |
| Datganiad budd-daliadau, er enghraifft Budd-dal Plant, pensiwn | Y DU | **Cyhoeddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf** |
| Llythyr gan bennaeth, pennaeth coleg, darparwr prentisiaeth | Y DU - ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed mewn addysg llawn amser neu ar brentisiaeth - yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol os na ellir darparu dogfennau eraill | **Cyhoeddwyd yn ystod y mis diwethaf** |